# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 85

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4306

## Cofnod y Trafodion

Gweld Cofnod y Trafodion

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-9 a 13. Tynnwyd cwestiwn 10 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiynau 11 a 12. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Pwynt o Drefn

Cododd Arweinydd y Tŷ Bwynt o Drefn, yn gofyn am benderfyniad ar p'un a oedd cwestiwn atodol Adam Price i Gwestiwn 4 yn amhriodol o dan Reol Sefydlog 13.9. Dywedodd y Llywydd ei bod wedi gwrando ar y cwestiwn yn ofalus iawn ac nad oedd yr Aelod wedi gwneud unrhyw gyhuddiad nad oedd o fewn trefn. Roedd yn amlwg yn gwestiwn a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog, ac fe atebodd y Prif Weinidog y cwestiwn yn glir, ac nid oedd gan y Llywydd unrhyw beth yn rhagor i'w ddweud ar y mater.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil Ymadael â’r UE - TYNNWYD YN ÔL

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn caniatáu cynnal dadl ar yr eitem nesaf o fusnes

Dechreuodd yr eitem am 14.37

**NNDM6373** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM6374 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Dadl: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Dechreuodd yr eitem am 14.37

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NNDM6374**
Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU.

2. Yn credu:

a) ei fod yn gwbl annerbyniol ar ei ffurf bresennol; a

b) bod rhaid cymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu buddiannau Cymru a sefyllfa gyfansoddiadol a phwerau’r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyhoeddi bil parhad.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn credu nad yw Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn unrhyw fygythiad i'r setliad datganoli presennol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 44 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod seneddau a chynulliadau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhan o setliad democrataidd modern y Deyrnas Unedig, ac y dylid eu cynnwys yn llawn yng ngwneuthuriad y Deyrnas Unedig sy'n ffynnu yn y dyfodol ar ôl-Brexit.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 33 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NNDM6374**
Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU.

2. Yn credu:

a) ei fod yn gwbl annerbyniol ar ei ffurf bresennol; a

b) bod rhaid cymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu buddiannau Cymru a sefyllfa gyfansoddiadol a phwerau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyhoeddi bil parhad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 16 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Caffael Gwasanaethau Rheilffyrdd a'r Metro

Dechreuodd yr eitem am 15.35

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Diwygio Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 16.23

## 7 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Banc Datblygu Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.23

## 8 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.57

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM6367** Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 18 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 9 Dadl: Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 19.01

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM6368** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 18 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 10 Dadl: Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18

Dechreuodd yr eitem am 19.02

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM6353** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 27 Mehefin 2017.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 20 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 11 Dadl: Cyfnod 4 Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 19.19

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM6372** [Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil yr Undebau Llafur (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 13 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 12 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 19.30

Daeth y cyfarfod i ben am 19.34

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 19 Gorffennaf 2017**